

Cais am Ganiatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer Gwaith Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

Dylai'r ffurflen Cais am Ganiatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer Gwaith Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth gael ei defnyddio ar gyfer cynigion sy'n gofyn am gryn waith dymchwel o ran unrhyw adeilad neu strwythur nad yw'n rhestredig mewn ardal gadwraeth os oes angen cael caniatâd.

Noder, mewn ardal gadwraeth, nad oes angen i chi gael caniatâd i ddymchwel adeilad nad yw dros 115 metr ciwbig neu i ddymchwel wal, gât neu ffens sy'n llai na metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, neu sy'n llai na dau fetr o uchder rywle arall.

Beth yw ardal gadwraeth?

Mae gan awdurdodau lleol y pŵer (o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990) i ddynodi'n ardaloedd cadwraeth unrhyw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae hyn yn golygu bod gan yr awdurdod cynllunio bwerau ychwanegol i reoli gwaith a dymchwel adeiladau er mwyn diogelu neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

Sut y dewisir pa ardaloedd cadwraeth a gaiff eu dynodi?

Fel arfer, caiff ardaloedd cadwraeth eu dewis fel mannau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, lle y dylai eu cymeriad neu eu hymddangosiad gael ei ddiogelu neu ei wella.

Nid dim ond adeiladau sy'n cyfrif am gymeriad arbennig yr ardaloedd hyn. Fe'i diffinnir hefyd gan nodweddion eraill sy'n cyfrannu at olygfeydd penodol a'r ardal leol gyfarwydd:

- y ffordd y caiff ffyrdd, llwybrau a ffiniau eu gosod allan
- deunyddiau adeiladu a phalmentydd nodweddiadol
- y ffordd y caiff adeiladau eu defnyddio
- mannau cyhoeddus a phreifat, megis gerddi, parciau a mannau gwyrdd
- coed a dodrefn stryd

Mae ardaloedd cadwraeth yn diogelu ardal ehangach o dir na rhestru adeiladau unigol a gall yr holl nodweddion o fewn yr ardal, p'un a ydynt wedi'u rhestru ai peidio, gael eu cydnabod fel rhan o'i chymeriad.

Cyngor: Nid yw caniatâd ardal gadwraeth yn gymwys i adeiladau rhestredig, nac i ddymchwel adeilad eglwysig a ddefnyddir at ddibenion eglwysig, er enghraifft eglwys; dymchwel cofeb gofrestredig; a dymchwel unrhyw adeilad mewn categorïau penodol eraill.

Mae'n drosedd dymchwel adeilad nad yw'n rhestredig mewn ardal gadwraeth, heb gael caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - gelwir hyn yn gyngor cyn gwneud cais. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.